**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2011**

**Y GYLLIDEB DDRAFT 2012-13**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno cyllideb ddrafft 2012-13 i'r Aelodau i'w chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Aelodau mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2012-13, y rhagolygon ar gyfer 2013-14 a 2014-15, ac mae'r papurau sydd ynghlwm yn nodi'r:-

(i) gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);
(ii) y cyfraniadau amodol sydd eu hangen gan yr Awdurdodau Cyfansoddol (Atodiad B);
(iv) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad C).

3 Ni chynhwyswyd y Gyllideb ar ffurf Gwerth Gorau, Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys na'r Dangosyddion Ariannol oherwydd cyfyngiadau o ran amser, a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

## Y CEFNDIR

4 Pan ddaeth y Llywodraeth bresennol i rym, un o'i amcanion ariannol oedd lleihau gwariant yn y sector cyhoeddus flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y prif gyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru yw'r Grant Cefnogi Refeniw (GCR) gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r cyllid ar gyfer Awdurdodau Tân wedi ei gynnwys o fewn y setliad. Yn ardal Gogledd Cymru, cafodd yr Awdurdodau

Cyfansoddol ostyngiad o 1.6% ar gyfartaledd yn eu setliad Grant Cefnogi Refeniw ar gyfer 2011/12, a chynnydd disgwyliedig o 0.1% ar gyfer 2012/13, ac 1.1% ar gyfer 2013/14.

5 Oherwydd y sefyllfa ariannol trwy Gymru, cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 10 Rhagfyr 2010 er mwyn penderfynu ar lefel y gostyngiad yng nghyllideb yr Awdurdod dros y tair blynedd nesaf, ac i gytuno ar strategaeth i gael y gostyngiadau hynny.

6 Yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio oedd ateb y gostyngiad cyffredinol yn y setliad a rhannu'r arbedion yn gytbwys dros y 3 blynedd. Arweiniodd hyn at 0.5% o ostyngiad yn y gyllideb ym mlynyddoedd 1 a 2, a chyllideb ddigyfnewid ym mlwyddyn 3. Oherwydd y byddai'r ymrwymiadau hysbys yn cynyddu'r gyllideb 2% yn y 2 flynedd gyntaf, ac yna 2.5% ym mlwyddyn 3, yr arbedion arian cyffredinol sy'n angenrheidiol dros y 3 blynedd yw 2.45 miliwn, sef gostyngiad o 7.5%.

## GWIRIONEDDOL – 2010/11

7 Cynhwysir gwariant gwirioneddol 2010/11 yng ngholofn gyntaf yr atodiad er mwyn bod yn gymorth i gymharu gyda'r cyllidebau cyfredol ac arfaethedig. Fodd bynnag, fel y gwelir o'r gwariant dan gyflenwadau a gwasanaethau, yn enwedig y ffioedd proffesiynol, mae £435k o wariant ar gyfer 2010/11, gyda'r rhan fwyaf ohono yn un gwariant unigol na fydd yn digwydd mewn blynyddoedd eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn ymwneud â ffioedd proffesiynol ar brosiect Wrecsam mewn perthynas â safleoedd a ystyriwyd ond nad oedd yn ddichonol. Mae'r costau hyn wedi cael eu trin fel costau ofer, ac ailgredydwyd y rhaglen gyfalaf gyda'r ffioedd a throsglwyddwyd y gwariant i'r refeniw fel ag adroddwyd yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2011.

## ARBEDION BLWYDDYN 1 – 2011/12

8 Cafodd adroddiad cynhwysfawr am y cynnydd tuag at yr arbedion yn y gyllideb ei gyflwyno i Aelodau'r Panel Gweithredol ar 21 Tachwedd 2011. Y targed o ran arbedion ar gyfer blwyddyn 1 oedd £802,000, a'r meysydd yr effeithiwyd arnynt oedd:-

- Gofal Tân Rheng Flaen –Adolygiad Swyddogion £450,000
- Digwyddiad Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc £12,000
- Llinellau Dewisol yn y Gyllideb £200,000
- Diogelwch Cymunedol £50,000
- Gwasanaethau Cynnal £90,000

9 Roedd yr adroddiad yn nodi'r mesurau a roddwyd mewn lle i gael yr arbedion, a'r arwyddion presennol yw y cânt eu gwireddu ond ei bod efallai yn rhy gynnar i gydnabod unrhyw effaith tymor hir y gallent eu cael ar ddarparu gwasanaethau.

## CYLLIDEB 2012/13

10 Dyma'r ail flwyddyn yn y strategaeth 3 blynedd y cytunwyd arni gan yr Aelodau, a'r penderfyniad a wnaed oedd lleihau'r gyllideb 0.5%.

11 Y man cychwyn yn y broses o osod y gyllideb yw ystyried unrhyw godiadau hysbys, ac mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiadau hysbys megis yr arian refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn seiliedig ar wariant a gafwyd eisoes, ynghyd â chodiadau na ellir ei osgoi mewn chwyddiant. Ni chynhwyswyd unrhyw godiad cyflog ar gyfer 2012/13 oherwydd bod cyflogau'r sector cyhoeddus wedi eu rhewi gan y llywodraeth ganolog. Effaith yr ymrwymiadau hysbys yw cynyddu'r gyllideb 2%.

12 Er mwyn cael y gostyngiad y cytunwyd arno yn y gyllideb yn 2012/13, y targed o ran arbedion yw £815,000.

## CYLLIDEB 2013/14 a 2014/15

13 Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gynllunio, mae'r cyllidebau ar gyfer 2013/14 a 2014/15 wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. 2013/14 yw'r drydedd flwyddyn yn y strategaeth y cytunwyd arni, a'r targed ar gyfer blwyddyn 3 yw cyllideb ddigyfnewid.

14 Mae'r ymrwymiadau hysbys wedi cael eu hystyried o fewn y cyllidebau ar gyfer y 2 flynedd nesaf, ac maent yn cynnwys costau refeniw uwch cyfalaf yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf sydd yn atodiad C. Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth ganolog wedi cyhoeddi y bydd codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus wedi cael

eu capio ar 1% pan ddaw'r cyfnod o rewi cyflogau i ben, felly mae 1% wedi cael ei ystyried o fewn y codiadau cyflog am y 2 flynedd nesaf. Mae effaith yr ymrwymiadau hysbys wedi cynyddu'r gyllideb 2.5% yn 2013/14 a 2.83% yn 2014/15.

15 Er mwyn cael cyllideb ddigyfnewid yn 2013/14, y targed o ran arbedion yw £835,000.

16 Mae 2014/15 yn flwyddyn newydd yn y broses gynllunio, felly ni chytunwyd ar unrhyw strategaeth eto o ran p'un ai doeth yw cynllunio ar gyfer arbedion pellach yn y flwyddyn hon ai peidio. Os na chytunir ar unrhyw arbedion, bydd y gyllideb yn codi 2.83%, o ystyried yr ymrwymiadau hysbys.

**ARBEDION BLWYDDYN 2 a 3 – 2012/13 a 2013/14**

17 Y targed o ran arbedion ar gyfer 2012/13 yw £815,000, ac ar gyfer 2013/14 mae'n £835,00.

18 Yn y strategaeth y cytunwyd arni gan yr aelodau, bydd hyd at £300,000 o'r arbedion bob blwyddyn yn dod o leihau gweithgarwch diogelwch tân cymunedol, dyletswyddau anstatudol a swyddi staff cefnogol, ynghyd ag ymddeoliadau sydd yn yr arfaeth. Gan fod yr arbedion hyn eisoes wedi cael eu nodi, mae'r swyddogion wedi gallu rhoi cynlluniau mewn lle i gael yr arbedion hyn.

19 Roedd yr Aelodau'n cytuno y byddai gweddill yr arbedion, sef dros £1 miliwn, yn dod trwy ostyngiad yn y gwariant ar ddarparu gofal tân, a gostyngiad cyfatebol yn lefel y gefnogaeth.

20 Cyflwynwyd adroddiad i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Hydref 2011 yn nodi'r opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn lleihau gofal tân rheng flaen – detholwyd yr opsiynau gan Aelodau Gweithgor y Cynllun Risg o blith detholiad ehangach. Roedd manylion y risgiau a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn wedi eu nodi yn yr adroddiad, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar yr opsiwn a argymhellwyd gan y Panel Gweithredol, sef gwneud newidiadau i system gylchrestr criwiau, gan wneud unrhyw newidiadau ar sail cytundeb trwy drafod. Dewiswyd yr opsiwn hwn

gan mai hwn fyddai'n effeithio leiaf ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

21 Erbyn hyn, mae'r trafodaethau rhwng swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol wedi cychwyn, ac mae nifer o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal. Mae cynrychiolwyr o Undeb yr FBU wedi cael gwybodaeth am yr opsiynau posib o ran cylchrestrau, ac wedi trafod yr opsiynau hyn gyda'r diffoddwyr tân ers hynny. Yn dilyn y trafodaethau hyn, mae'r Undeb wedi dod yn ôl gydag awgrymiadau eraill, ac mae'r rhain wrthi'n cael eu hystyried i weld a oes lle iddynt o fewn amcanion yr Awdurdod.

22 Oherwydd yr amser sydd ar gael, nid oes sicrwydd p'un ai y gellir cael cytundeb erbyn 1 Ebrill 2012 er mwyn gallu ei chyflwyno. Fodd bynnag, mae'r adroddiad alldro amcanol wedi nodi nifer o arbedion unigol a fydd yn cyfrannu at danwariant yn 2011/12. Gellid defnyddio'r tanwariant hwn i ariannu costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno system gylchrestr yn 2012/13.

## CYFRANIADAU

23 Mae Atodiad B yn nodi'r cyfraniadau rhagamcanol gan yr awdurdodau cyfansoddol yn 2012-13.

24 O'r blaen, roedd y cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a lunnir gan y Cofrestrydd Cyffredinol. Defnyddiwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru fel sail ar gyfer cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob Awdurdod a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyrannu'r Grant Cefnogi Refeniw. Yn 2011/12, newidiodd LlC y sail cyfrifo o amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn i amcangyfrif poblogaeth rhagamcanol am y flwyddyn gyfredol. Ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol, a chytunwyd y byddai sail tecach ar gyfer dyrannu'r cyfraniad gan bob awdurdod yn digwydd o 2012/13 ymlaen, gan fod yn unol â'r sail a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol, sef amcangyfrif poblogaeth rhagamcanol ar gyfer 2012.

25 Fel y gwelir o'r cyfraniadau, mae'r newid yn sail y dyraniad wedi arwain at newid anghymesur yn y cyfraniadau, gyda rhai awdurdodau yn ennill ac eraill yn colli. Fodd bynnag, gan fod y sail

newydd wedi cael ei ddefnyddio i ddyrannu'r GCR, bydd yr awdurdodau hynny sydd â mwy o boblogaeth nag o'r blaen ac a fydd yn gweld cynnydd yn eu cyfraniad, yn manteisio ar gynnydd yn y GCR i ymorol am hyn.

**RHAGLEN GYFALAF**

26 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2012-13 yn Atodiad C, ac mae'n £3.98 miliwn, gyda £2.08 miliwn o'r gwariant hwn ar gyfer cynlluniau newydd a £1.9 miliwn ar gyfer cynlluniau a gymeradwywyd o'r blaen naill ai yn 2010-11 neu yn 2011-12. Cafodd y cynlluniau adeiladu mawr sydd yn y rhaglen eu hadrodd i Aelodau'r Panel Gweithredol ar 21 Tachwedd 2011. Mae prynu peiriannau a cherbydau ategol newydd yn mynd yn ei flaen fel sydd yn y rhaglen cerbydau newydd. Yn 2011-12, yr alldro amcangyfrifiedig ar gyfer gwariant cyfalaf yw £5.3 miliwn, a'r cynnig yw cyllido hyn trwy fenthyca.

**ARGYMHELLION**

27 Argymhellir:

(i) bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2012/13;
(ii) bod yr Aelodau'n cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cael yr arbedion yn 2012/13 a 2013/14;
(iii) bod yr Aelodau'n nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2014/15;
(iv) bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael gwybod am y cyfraniadau rhagamcanol sydd eu hangen ar gyfer 2012/13;
(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2012/13, a'r dulliau cysylltiedig o gyllido;
(vi) os daw unrhyw newidiadau i'r amlwg cyn 15 Chwefror 2011, bydd cyfarfod pellach o'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei alw er mwyn cytuno ar y newidiadau.